Papur Bwrdd CNC

Dyddiad y cyfarfod:	**Dydd Mercher, 18 Tachwedd**
Teitl y papur:	Adroddiad Perfformiad Cynllun Busnes 2026-27: Ch2
Cyfeirnod y papur:	26-11-B16
Noddwyd y papur gan:	Prys Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth)
Paratowyd y papur gan:	Sarah Williams (Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni) James Cornelius (Arweinydd Tîm – Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol) Tîm Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol
Cyflwynwyd y papur gan:	Sarah Williams (Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni)
Diben y papur	Cymeradwyo adroddiad perfformiad Chwarter 2.

Crynodeb	Perfformiad Chwarter Dau:
	• **Perfformiad o ran ymrwymiadau'r cynllun busnes:**
	  ○ Cynnydd gwirioneddol Chwarter 1: **0** Coch, **9** Melyn, **21** Gwyrdd
	  ○ Cynnydd gwirioneddol Chwarter 2: **0** Coch, **10** Melyn, **17** Gwyrdd
	  ○ Sefyllfa ddisgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn: **0** Coch, **9** Melyn, **26** Gwyrdd
	• **Perfformiad mewnol:**
	  ○ Cynnydd gwirioneddol Chwarter 1: **1** Coch, **1** Melyn, **5** Gwyrdd
	  ○ Cynnydd gwirioneddol Chwarter 2: **1** Coch, **2** Melyn, **4** Gwyrdd

Cyflwyniad

1. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r adroddiad hwn ar berfformiad Chwarter 2 a ddarperir i gefnogi broses y Bwrdd o oruchwylio perfformiad y sefydliad.

Adroddiad ar Berfformiad Chwarter 2 Cynllun Busnes 2026-27

2. Tabl 1: Ymrwymiadau'r cynllun busnes sy'n goch neu'n felyn ar gyfer Chwarter 2 (ynghyd ag unrhyw rai a oedd yn goch neu'n felyn yn Chwarter 1, neu a ragwelir y byddant yn goch neu'n felyn ar ddiwedd 2026-27).

Ymrwymiad	**Cynnydd gwirioneddol Chwarter 2**	**Sefyllfa ddisgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn**
Amcan Llesiant 1: Mae natur yn adfer		
Rhwydweithiau ecolegol gwydn: Mae prosiectau wedi'u sefydlu ac ar y gweill ledled Cymru.	**Melyn**	**Gwyrdd**
Mae'r ymrwymiad yn <u>parhau</u> i fod yn felyn ar ddiwedd Chwarter 2. Mae cynnydd wedi'i wneud o ran datblygu'r fframwaith ar gyfer cyflawni adfer natur trwy flaenoriaethu gofodol, sydd bellach yn cael ei gwblhau yn dilyn adborth gan grŵp gorchwyl a gorffen rhwydweithiau ecolegol gwydn. Ochr yn ochr â hynny, mae cydlynwyr rhwydweithiau ecolegol gwydn arweiniol wedi cael eu nodi yn rhai o'n timau lleoedd gweithredol, ac maent wedi datblygu byrddau stori a briffiau prosiect. Fodd bynnag, nid yw cytundeb ar gynigion gwasanaeth a chadarnhad o arweinwyr ar draws pob lle wedi'i gwblhau eto, gan ohirio cam nesaf y cynllun cyflawni. Bydd **y llwybr i wyrdd** yn golygu cwblhau'r fframwaith drafft a sicrhau cytundeb cyson ar draws grŵp gorchwyl a gorffen rhwydweithiau ecolegol gwydn ar y cynigion gwasanaeth erbyn diwedd Chwarter 3. Bydd hyn yn galluogi gwaith i gynllunio cyflawni ar gyfer 2026/27.		
Cyngor ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru ar ddatblygu'r camau gweithredu dewisol a chydweithredol yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys adnewyddu'r cynllun rheoli coedwigoedd a chwmpasu gwasanaeth gwirio cynlluniau rheoli coetiroedd newydd.	**Melyn**	**Gwyrdd**

Mae'r ymrwymiad yn parhau i fod yn felyn ar ddiwedd Chwarter 2 wrth i waith fynd rhagddo gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu a gweithredu camau gweithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys y Cynllun Rheoli Coetiroedd newydd. Yn ystod y chwarter, parhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru i ategu'r gwaith o gyflwyno gwasanaeth y Cynllun Rheoli Safleoedd Dynodedig, grantiau cyfalaf amgylcheddol ac opsiynau cynefinoedd dros dro, tra cafodd y Cynllun Rheoli Coedwigoedd wedi'i ddiweddaru ei gyhoeddi. Mae cyngor hefyd yn cael ei ddarparu ar y broses ymgeisio ar gyfer y Cynllun Rheoli Coetiroedd a'r gwasanaeth gwirio cysylltiedig. Fodd bynnag, mae angen cadarnhad o'r broses a'r costau y cytunwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru o hyd i ategu ymdrechion i gynllunio'r broses gyflawni a negodi'r llythyr dyfarnu grant. Rhagwelir y bydd yr ymrwymiad yn cyflawni statws gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn.

Bydd **y llwybr i wyrdd** yn golygu cytuno ar y broses gyflawni gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Rheoli Coetiroedd, yn cadarnhau gofynion cyllido a gwasanaeth, ac yn cwblhau'r trefniadau o ran dyfarnu grantiau. Bydd hyn yn darparu'r eglurder y mae ei angen i gynllunio'r broses o gyflenwi gwasanaethau, recriwtio a hyfforddi unrhyw staff ychwanegol y mae eu hangen, ac ategu'r gwaith gweithredu o fewn yr amserlen ddisgwyliedig (disgwyl lansio ym mis Chwefror). Disgwylir i gynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn ddychwelyd yr ymrwymiad i statws gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn.

Sefydlu mentrau adfer rhywogaethau: sef (i) fframwaith adfer rhywogaethau, (ii) rhaglen waith afancod Llywodraeth Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru	**Gwyrdd**	**Melyn**

Roedd yr ymrwymiad yn wyrdd ar ddiwedd Chwarter 2. Canolbwyntiodd carreg filltir Chwarter 2 ar ddatblygu Rhaglen Waith Afancod Llywodraeth Cymru / Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys penodi arweinydd y Rhaglen Afancod, datblygu'r strategaeth a'r fframwaith rheoli, sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen afancod mewnol, a chynnal ail gyfarfod o Fforwm Afancod Cymru i ystyried cynigion cychwynnol. Mae'r gweithgareddau hyn wedi darparu'r sylfaen ar gyfer cyflawni carreg filltir Chwarter 3 i ymgynghori ar restr o rywogaethau â blaenoriaeth y Fframwaith Adfer Rhywogaethau.

Bydd **y llwybr i wyrdd** yn golygu cytuno ar addasiadau i'r fethodoleg blaenoriaethu rhywogaethau a chwblhau'r dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn unol â gwaith dangosyddion rhywogaethau a thargedau Llywodraeth Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi sicrhau cyllid ar gyfer hwyluso allanol a chymorth cyfathrebu ac mae'n gweithio gyda chydweithwyr cyfathrebu i gyflawni'r rhaglen ymgysylltu. Bydd y camau gweithredu hyn yn cefnogi'r gwaith o cyflenwi'r Fframwaith Adfer Rhywogaethau, er ein bod yn rhagweld statws melyn ar ddiwedd y flwyddyn gan na disgwylir i ymdrechion ymgysylltu â rhanddeiliaid ddigwydd tan ddechrau 2027.

Diogelu gofodol ar gyfer cyflawni er byd natur: rhaglen wedi'i sefydlu a gweithrediad wedi dechrau.	**Melyn**	**Gwyrdd**

Roedd yr ymrwymiad yn felyn ar ddiwedd Chwarter 2, ar ôl bod yn wyrdd ar ddiwedd Chwarter 1. Canolbwyntiodd y chwarter ar ategu'r gwaith o adnewyddu'r cynllun corfforaethol, gan gynnwys datblygu targedau o ran canlyniadau sydd wedi'u llywio gan waith presennol a gwaith arfaethedig ar draws cynlluniau a rhaglenni gwasanaeth. Gwnaed cynnydd hefyd wrth weithredu elfennau o ailstrwythuro Rheoli Adnoddau Naturiol ac

ymateb i argymhellion SoDdGA Archwilio Cymru, gan helpu i bontio o gynllun gwaith pwrpasol i ddull sy'n seiliedig ar ddangosfwrdd sy'n gwella gweledegd y gweithgareddau a wneir ar draws y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw pecynnau gwaith rhaglenni a cherrig milltir yn y dyfodol wedi'u diffinio a'u cytuno'n ffurfiol eto, ac felly nid yw'r garreg filltir wedi'i chyflawni eto.

Bydd **y llwybr i wyrdd** yn golygu cwblhau'r rhaglen cyflawni natur a chytuno ar becynnau gwaith a cherrig milltir y rhaglen. Bydd hyn yn darparu fframwaith cyflawni clir ac yn cefnogi'r gwaith o olrhain cynnydd yn erbyn amcanion y rhaglen. Disgwylir i'r garreg filltir barhau i fod yn felyn y chwarter nesaf cyn symud i statws gwyrdd erbyn diwedd y flwyddyn.

Metrig tueddiadau	**Metrig a adroddwyd**	**Cynnydd gwirioned dol Chwarter 2**
Nifer y SoDdGAau sy'n cael hysbysiad neu ailhysbysiad.	**Un SoDdGA wedi'i hysbysu, gan ddod â'r cyfanswm i dri**	**Coch**

Cwblhawyd un hysbysiad SoDdGA ychwanegol yn ystod Chwarter 2, gyda **Dolydd y Rheithordy, Rogiet** (5.2 hectar) wedi'u hysbysu. Daw hyn â chyfanswm y SoDdGAau a hysbyswyd hyd yma i dri, gan gynnwys **Wern Ddu Uchaf** a **Chors Cae Gweunydd**. Mae'r ddarpariaeth yn parhau i fod islaw'r lefel sy'n ofynnol i gyflawni'r targed blynyddol o wyth hysbysiad neu ailhysbysiad, ac felly mae wedi'i sgorio'n goch.

Mae'r rhaglen strwythuredig o hysbysiadau ac ailhysbysiadau a sefydlwyd yn Chwarter 1 wedi parhau trwy gydol Chwarter 2 ac mae'n cael ei chyflwyno'n raddol ar draws y flwyddyn i leihau tagfeydd ar gyfer rolau allweddol, gan gynnwys y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig. Mae wyth hysbysiad arall yn mynd rhagddynt, a disgwylir i berfformiad wella i felyn yn Chwarter 3 a gwyrdd yn Chwarter 4.

Mae'r broses cynllunio datblygu yn cynnal lefel gwasanaeth o 98% ar gyfer ymatebion amserol gan ymgynghoreion statudol.	**99%**	**Gwyrdd**

Fe wnaethom ni barhau i gyflawni lefel uchel o berfformiad yn ystod cyfnod o alw cynyddol a'r cyfnod newid system sy'n mynd rhagddo. Mae perfformiad yn parhau i fod yn sefydlog (gwyrdd), ac mae wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn i roi sicrwydd i'r Bwrdd. Mae'r data a gyflwynir wedi'u hadrodd un chwarter y tu ôl i'r chwarter presennol, ac felly'n ymwneud â Chwarter 1 2026/27.

Amcan Llesiant 2: Cymunedau yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd

Ymrwymiad	**Cynnydd gwirioneddol Chwarter 2**	**Sefyllfa ddisgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn**

Cynllun dalgylch llifogydd afon Taf: datblygu cyfres o waith wedi'i blaenoriaethu, a sefydlu partneriaeth dalgylch.	**Dim carreg filltir**	**Gwyrdd**
Roedd yr ymrwymiad yn wyrdd ar ddiwedd Chwarter 1, ond roedd yn rhagweld sefyllfa ddisgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn o felyn, sydd bellach wedi newid i wyrdd. Gwnaed cynnydd o ran sefydlu Partneriaeth Dalgylch Taf drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, datblygu trefniadau llywodraethiant, a chyflwyno gweithdy cyntaf fforwm yr aelodau. Mae hyn wedi cryfhau cydweithio ar draws y sector ac wedi llywio'r gwaith o ddatblygu rhaglen â blaenoriaeth o ymyriadau dalgylch.		
Adolygiad Cyfnodol o Brisiau Cwmnïau Dŵr 2029 (PR29): Sefydlu dull PR29 ar gyfer atebion ar sail natur ac atebion i ddalgylchoedd.	**Melyn**	**Melyn**
Roedd yr ymrwymiad yn wyrdd ar ddiwedd Chwarter 1, ond roedd yn rhagamcanu sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn o felyn, ac mae'n parhau i fod yn rhagweld statws melyn ar ddiwedd y flwyddyn, ond mae'n felyn ar gyfer diwedd Chwarter 2. Gwnaed cynnydd wrth sefydlu'r dull o ymdrin ag atebion ar sail dalgylch a natur o fewn PR29, gyda disgwyliadau wedi'u pennu drwy Ofynion Amgylcheddol Strategol Diwydiant Dŵr Cymru (WWISER), ac mae dros hanner yr ysgogwyr yn amlygu lle gellid defnyddio atebion ar sail dalgylch a natur i fodloni gofynion. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn erbyn carreg filltir Chwarter 2 yn anghyflawn gan nad yw cysylltiadau â chynlluniau draenio a rheoli dŵr gwastraff wedi'u hegluro'n llawn eto, mae rhai prif ysgogwyr i'w cwblhau o hyd, ac mae pwysau ar adnoddau staff wedi effeithio ar y ddarpariaeth. Bydd **y llwybr i wyrdd** yn golygu gwneud penderfyniadau pragmatig sy'n galluogi cynnydd i barhau tra bod trefniadau diwygio dŵr ehangach yn cael eu cwblhau. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar gwblhau'r ysgogwyr sy'n weddill, cryfhau cysylltiadau â chynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff, a pharhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a phartneriaid rheoleiddio. Er bod cynnydd yn cael ei wneud, mae ansicrwydd y tu hwnt i reolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn golygu bod disgwyl i'r ymrwymiad barhau i fod yn felyn ar ddiwedd y flwyddyn.		
Gweithredu fel hwylusydd ar gyfer partneriaeth Bargen Twf Canolbarth Cymru: er mwyn cefnogi cyfleoedd datgarboneiddio ar gyfer y sector cludo pren crwn, fel rhan o gyfraniad Cyfoeth Naturiol Cymru at fenter Llywodraeth Cymru, y Cynllun Arloesi ar gyfer Datgarboneiddio drwy Ymchwil Busnesau i'r System Gyfan.	**Gwyrdd**	**Gwyrdd**
Roedd yr ymrwymiad yn wyrdd ar ddiwedd Chwarter 2, gan adlewyrchu cynnydd o'r sefyllfa statws melyn a adroddwyd yn Chwarter 1. Mae partneriaeth Bargen Twf y Canolbarth wedi sicrhau cefnogaeth Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen ag ail rownd o gyllid, gan alluogi gweithgarwch casglu tystiolaeth pellach a gwaith dichonoldeb i gefnogi cyfnod arbrofol ar gyfer cerbyd cludo coed sy'n defnyddio tanwydd hydrogen. Bydd y gwaith hwn hefyd yn archwilio'r gadwyn gyflenwi o'r dechrau i'r diwedd, o gynhyrchu hydrogen yn y goedwig hyd at ddefnyddio cerbydau, gan ddarparu sylfaen gryfach ar gyfer cyfleoedd datgarboneiddio yn y dyfodol o fewn y sector cludo pren crwn.		
Gwella Asesu Perygl Llifogydd Cymru: datblygu'r cynllun cyflawni ar gyfer cenhedlaeth nesaf Asesu	**Melyn**	**Melyn**

Perygl Llifogydd Cymru, er mwyn moderneiddio data ynghylch llifogydd fel y gall pob rhanddeiliad eu defnyddio.		
Yr ymrwymiad oedd melyn ar ddiwedd Chwarter 2. Canolbwyntiodd y chwarter ar ddatblygu cenhedlaeth nesaf Asesu Perygl Llifogydd Cymru, gyda'r ddogfen gwmpasu lefel uchel wedi'i chwblhau a'i mireinio. Mae gwaith paratoadol ar gyfer recriwtio rheolwr rhaglen pwrpasol hefyd wedi mynd rhagddo, gyda disgrifiad rôl wedi'i ddatblygu a chyllid wedi'i nodi o fewn rhaglen gyfalaf rheoli perygl llifogydd. Er na chyflawnwyd carreg filltir Chwarter 2, mae digon o gynnydd wedi'i wneud o ran sefydlu sylfeini'r rhaglen ar gyfer yr ymrwymiad cyffredinol i barhau ar statws melyn. Bydd **y llwybr i wyrdd** yn golygu sicrhau cytundeb y gellir ariannu swydd y rheolwr rhaglen drwy'r rhaglen gyfalaf, gan alluogi recriwtio i fynd rhagddo, a datblygu cynllun comisiynu ar gyfer y rhaglen erbyn diwedd Chwarter 4. Oherwydd bod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn ddibynnol ar gymeradwyaeth recriwtio a chadarnhad cyllid, disgwylir i'r ymrwymiad aros ar statws melyn ar ddiwedd y flwyddyn.		
Canllawiau Diwydiant Carbon Isel: Datblygu cyngor, canllawiau ac offer ynghylch technolegau a seilwaith carbon isel, gan gynnwys niwclear, dal carbon, sylweddau poly- a perfflworoalcyl (PFAS), a disgwyliadau gwell ar gyfer y System Rheoli Amgylcheddol.	**Melyn**	**Melyn**
Yr ymrwymiad oedd melyn ar ddiwedd Chwarter 2. Canolbwyntiodd y chwarter ar symud y rhaglen Canllawiau Diwydiant Carbon Isel yn ei flaen, gan gynnwys parhau i ddatblygu'r pecyn trwyddedau hybrid, ymgorffori gofynion newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn rhaglen waith y System Rheoli Amgylcheddol, a chytuno ar safbwynt rheoleiddio dros dro ar lygryddion organig hirbarhaus. Mae gweithgarwch ymgysylltu parhaus drwy'r Rhaglen Trawsnewid Trwyddedau a chydweithio â rheoleiddwyr partner wedi helpu i sicrhau aliniad â diwygiadau rheoleiddiol ehangach a chyfleoedd gweithredu yn y dyfodol. **Nid yw'r llwybr i wyrdd yn glir ar hyn o bryd.** Er bod cynnydd yn parhau ar draws pob maes gwaith, mae'r ddarpariaeth wedi bod yn arafach nag a ragwelwyd oherwydd pwysau adnoddau a dibyniaeth ar raglenni trawsnewid ehangach. Felly disgwylir i'r ymrwymiad aros ar statws melyn ar ddiwedd y flwyddyn.		
Amcan Llesiant 3: Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf		
Ymgorffori newidiadau i'r dull o reoli digwyddiadau a ffyrdd o weithio: i alluogi ymateb â blaenoriaeth i ddigwyddiadau, gan ganolbwyntio adnoddau ar y rhai sy'n achosi'r niwed mwyaf	**Melyn**	**Melyn**
Roedd yr ymrwymiad yn statws melyn ar ddiwedd Chwarter 1 ac mae'n parhau i fod yn felyn ar ddiwedd Chwarter 2. Rhagwelir y bydd yn aros ar statws melyn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r ddarpariaeth yn parhau yn unol â'r cynllun, ond mae ymgorffori dull rheoli digwyddiadau sy'n seiliedig ar risg yn llawn yn rhaglen aml-flwyddyn. Mae'r adolygiad o bob un o'r 29 o Weithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer rheoli digwyddiadau llygredd yn mynd rhagddo, gydag ymgynghori ar y Gweithdrefnau Gweithredu Safonol diwygiedig ar y gweill a'r bwriad yw eu cwblhau yn ystod y chwarter hwn. Mae dysgu gweithredol a chanllawiau presennol yn cael eu defnyddio i gefnogi		

ymateb cyson yn seiliedig ar risg a niwed amgylcheddol. Mae gwaith wedi parhau ar bolisïau, cynlluniau digwyddiadau, llwybrau adrodd ac offer cefnogi penderfyniadau.

Mae'r **llwybr i wyrdd** yn parhau i fod yn seiliedig ar weithrediad llwyddiannus a mabwysiadu parhaus y dull diwygiedig ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae allbynnau cynlluniedig yn parhau i fod yn gyraeddadwy ac mae'r holl garreg filltir ar y trywydd iawn, ond mae statws gwyrdd yn dibynnu ar fabwysiadu ehangach gan y sefydliad a thystiolaeth bod adnoddau'n cael eu cyfeirio'n gyson tuag at ddigwyddiadau sy'n achosi'r niwed amgylcheddol mwyaf.

Cyflawni'r Rhaglen Mynd i'r Afael â Throseddau Gwastraff: tarfu ar droseddau gwastraff cyfundrefnol drwy ymyriadau amlasiantaethol sy'n cael eu llywio gan guddwybodaeth.	**Melyn**	**Melyn**

Mae'r ymrwymiad yn parhau i fod yn felyn ar ddiwedd Chwarter 2 a rhagwelir y bydd yn parhau i fod yn felyn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu cymhlethdod cynyddol troseddau gwastraff cyfundrefnol a'r pwysau parhaus ar orfodi ac adnoddau arbenigol. Yn ystod y chwarter, cwblhawyd adolygiad bwrdd gwaith o'r esemptiad 'defnyddio gwastraff mewn adeiladu' a chyflawnwyd carreg filltir Chwarter 2 ar gyfer ymweliadau â safleoedd â blaenoriaeth uchel. Mae cynnydd wedi parhau o ran mynd i'r afael â'r ôl-groniad o ymweliadau safle o Chwarter 1, a disgwylir i gymhwysedd cynyddol swyddogion ategu'r ymdrechion i gyflawni cerrig milltir diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r gwaith cynllunio ar gyfer ymgyrchoedd gwastraff adeiladu a dymchwel wedi'i ohirio oherwydd bod adnoddau'n cael eu hailgyfeirio i gefnogi ymchwiliadau gweithredol.

Bydd y **llwybr i wyrdd** yn golygu cynyddu gorfodi a chapasiti arbenigol, cwblhau'r ymgyrchoedd gwastraff adeiladu a dymchwel arfaethedig, a pharhau â gweithgarwch sy'n cael ei lywio gan guddwybodaeth sy'n targedu safleoedd risg uchel. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Cyd-uned ar gyfer Troseddau Gwastraff i gryfhau cuddwybodaeth, y gallu i orfodi, a'r ymateb i risgiau cynyddol o droseddau gwastraff trawsffiniol a threfnedig. Er bod cerrig milltir blynyddol yn parhau i fod yn gyraeddadwy, disgwylir i'r ymrwymiad ehangach aros yn felyn ar ddiwedd y flwyddyn oherwydd maint a chymhlethdod yr her.

Ymrwymiad	**Cynnydd gwirioneddol Chwarter 2**	**Sefyllfa ddisgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn**
Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a DEFRA: i ddatblygu'r gallu i dracio gwastraff yn ddigidol a rhannu data trawsffiniol, er mwyn deall llif gwastraff a helpu i nodi gweithgarwch anghyfreithlon yn gynharach.	**Melyn**	**Melyn**

Mae'r ymrwymiad yn parhau i fod yn felyn ar ddiwedd Chwarter 2 a rhagwelir y bydd yn felyn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn adlewyrchu dibyniaeth barhaus Cyfoeth Naturiol Cymru ar ddarpariaeth a arweinir gan DEFRA a lefelau is nag a ragwelwyd o ddata a gyflwynir drwy'r Gwasanaeth Tracio Gwastraff yn Ddigidol yn ystod y profion. Aeth y gwasanaeth yn fyw ar 1 Hydref, ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi

parhau i adolygu data beta sydd ar gael a rhoi adborth i DEFRA. Fodd bynnag, mae swm y data sydd ar gael i'w adolygu wedi bod yn gyfyngedig oherwydd nifer isel o ddarparwyr meddalwedd sy'n cymryd rhan, ac ar hyn o bryd nid oes gan reoleiddwyr fynediad at ddata byw.

Bydd **y llwybr i wyrdd** yn golygu cynyddu cyfranogiad safleoedd derbyn gwastraff Cymru (mewn sectorau perthnasol) yn y Gwasanaeth Tracio Gwastraff yn Ddigidol, gwella mynediad rheoleiddwyr at ddata, a pharhau i weithio gyda DEFRA a'r diwydiant i annog mabwysiadu ehangach. Bydd mwy o gyfranogiad a datrysiadau meddalwedd mwy fforddiadwy yn gwella dealltwriaeth o symudiadau gwastraff ac yn ategu ymdrechion i adnabod gweithgarwch anghyfreithlon yn gynharach. Bydd cynnydd ar y camau hyn yn hanfodol er mwyn gwireddu buddion llawn y gwasanaeth a gwella perfformiad yn y blynyddoedd i ddod.

Metrig tueddiadau	**Metrig a adroddwyd**	**Cynnydd gwirionedd ol Chwarter 2**
Penderfynu ar bob cais am drwydded sy'n dod i law o fewn yr amserlenni statudol neu'r lefelau o wasanaeth y cytunwyd arnynt.	**85%**	**Melyn**

Mae'r perfformiad cyffredinol wedi parhau i fod yr un fath yn fras ers Chwarter 1, ac mae ganddo statws melyn. Mae perfformiad yn parhau i gael ei effeithio gan bwysau parhaus o fewn y tîm gosodiadau / Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol, yn ogystal â thrwyddedu gwastraff a rhywogaethau.

Er bod perfformiad wedi'i gynnal yn ystod Chwarter 2, mae gwaith yn parhau i fynd i'r afael â phwysau capasiti a gweithredol ar draws y meysydd hyn. Disgwylir i weithgarwch lliniaru ategu adferiad dros weddill y flwyddyn.

Rheoli digwyddiadau: Digwyddiadau categori 'uchel' ailadroddus yn yr un lleoliad fel canran o'r digwyddiadau categori 'uchel' sydd wedi'u cadarnhau.	**13%**	Gwyrdd

Mae'r metrig tueddiadau hwn wedi symud o'i statws Chwarter 1, sef melyn, ac mae ganddo statws gwyrdd ar gyfer Chwarter 2. Mae cyfran y digwyddiadau categori uchel sy'n digwydd mewn lleoliadau ailadroddus yn parhau i fod yn unol mwy neu lai â'r llinell sylfaen o dair blynedd. Amcangyfrifir bod y sefyllfa ar gyfer Chwarter 1 dros y flwyddyn dreigl tua 13% o'i chymharu â llinell sylfaen tair blynedd o tua 12%, gan arwain at statws gwyrdd. Mae'r newid yn y sefyllfa dros y flwyddyn dreigl o 13.2% ar gyfer Chwarter 1 i 13.0% ar gyfer Chwarter 2.

Amcan Llesiant 4: Sut rydym yn gweithio dros natur a phobl		
Cryfhau Gwasanaethau Pobl drwy wneud y canlynol: **• Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r**	**Gwyrdd**	**Gwyrdd**

Cynllun Gwrth-hiliaeth. **• Cwblhau'r dadansoddiad o anghenion hyfforddiant ym maes iechyd a diogelwch.**		
Yr ymrwymiad yw cyrraedd statws gwyrdd ar ddiwedd Chwarter 2 a rhagwelir y bydd yn parhau'n wyrdd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae cynnydd wedi'i wneud ar draws pob elfen o'r ymrwymiad. Mae data o'r dadansoddiad o anghenion hyfforddiant ym maes iechyd a diogelwch bellach wedi'i uwchlwytho i'r System Rheoli Dysgu, gan alluogi staff a rheolwyr i gael mynediad at ofynion hyfforddi a'u hadolygu. Mae adnodd ar waith i gefnogi rheolwyr a chynnal goruchwyliaeth o newidiadau, a chymeradwywyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol gan y Pwyllgor Pobl ym mis Hydref. Mae cynllunio ar gyfer y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth hefyd yn mynd rhagddo, gyda sesiwn cynllunio gweithredu bwrpasol wedi'i threfnu yn ystod Chwarter 3.		
Sefydlu ein dull ar gyfer cyllid gwyrdd: i nodi mecanweithiau ariannol sy'n barod i fuddsoddwyr a datgloi cyllid newydd.	**Dim carreg filltir**	**Gwyrdd**
Yr ymrwymiad oedd i gyrraedd statws melyn ar ddiwedd Chwarter 1 oherwydd yr amser a oedd ei angen i sefydlu'r dull cyllid gwyrdd a chytuno iddo. Er nad oedd carreg filltir ar gyfer Chwarter 2, yn Chwarter 2 cytunwyd ar drefniant cydweithio â Llywodraeth Cymru, a rhagwelir y bydd yr ymrwymiad hwn yn parhau i fod yn wyrdd erbyn diwedd y flwyddyn. Drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru, byddwn yn gweld nodi cyfleoedd, enghreifftiau o gynlluniau presennol a datblygu gweithdrefnau, a marchnata cyfleoedd yn Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ac mewn Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol fel cynlluniau sy'n barod i fuddsoddwyr. Ond bydd y gwaith hwn yn cymryd amser i aeddfedu ac mae'n annhebygol y bydd yn cynhyrchu incwm ar unwaith yn y tymor byr.		

Adroddiad perfformiad mewnol

3. Tabl 2: Adrodd perfformiad mewnol coch neu felyn yn Chwarter 2, gan gynnwys diweddariad ar yr eitemau hynny a adroddwyd yn goch neu'n felyn yn Chwarter 1. Ceir rhagor o fanylion yn **Atodiad 2** ar safleoedd eitemau eraill yn Chwarter 2.

Mesur mewnol	**Cynnydd gwirioneddol Chwarter 2**
Datganiadau o fuddiant	**Melyn**
Y llwybr i wyrdd yw trwy gwblhau'r datganiadau sy'n weddill. Mae perfformiad wedi gwella'n sylweddol o statws coch yn Chwarter 1 i statws melyn, ar 86%, erbyn diwedd Chwarter 2. Mae staff sydd heb gwblhau eu datganiad eto wedi cael eu hannog i wneud hynny, a disgwylir i gamau dilynol parhaus wella cydymffurfedd ymhellach, a disgwylir cyrraedd statws gwyrdd o hyd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.	
Ymateb i geisiadau mynediad at wybodaeth o fewn 20 diwrnod	**Gwyrdd**
Mae'r llwybr i wyrdd wedi'i gyflawni, gyda pherfformiad yn gwella o felyn yn Chwarter 1 (89.8%) i wyrdd yn Chwarter 2 (90.3%), gan ragori ar y targed o 90%. Mae newidiadau gweithredol bach o fewn y tîm, gan gynnwys dull diwygiedig o gyflenwi wrth ateb ffonau	

gyda thimau eraill, wedi helpu i gryfhau perfformiad. Disgwylir statws gwyrdd o hyd ar gyfer yr eitem hon erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.	
Digwyddiadau a adroddwyd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)	**Melyn**
Y llwybr i wyrdd yw drwy atal digwyddiadau adroddadwy pellach. Mae perfformiad ar statws melyn ar ddiwedd Chwarter 2, yn dilyn un digwyddiad yr oedd gofyn rhoi gwybod amdano i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Awst. Rhoddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gyngor ar y mater ac mae ymchwiliad mewnol yn mynd rhagddo. Disgwylir statws gwyrdd o hyd ar gyfer yr eitem hon erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.	
Adrodd ar ddigwyddiadau trwch blewyn ym maes iechyd a diogelwch	**Coch**
Y llwybr i werdd yw trwy gynyddu nifer yr adroddiadau am ddigwyddiadau trwch blewyn. Mae perfformiad yn goch ar ddiwedd Chwarter 2, gyda 42 o adroddiadau am ddigwyddiadau trwch blewyn ym mis Medi, sef gostyngiad o'i gymharu â mis Medi y llynedd. Mae arweinwyr timau a rheolwyr yn parhau i gael eu hatgoffa o bwysigrwydd adrodd am ddigwyddiadau trwch blewyn, a bydd sesiynau galw heibio yn cael eu trefnu i ategu gweithgarwch adrodd. Disgwylir statws gwyrdd o hyd ar gyfer yr eitem hon erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.	

Y camau nesaf

4. Bydd arweinwyr amcanion llesiant y Tîm Arwain a'r Tîm Gweithredol yn parhau i fonitro'r ddarpariaeth yn erbyn y llwybrau i wyrdd y cytunwyd arnynt ac yn cymryd camau unioni pan fo cynnydd yn gwyro o'r cynllun.

Argymhellion

5. Gofynnir i'r Bwrdd:
   - Nodi Adroddiad Perfformiad Chwarter 2 Cynllun Busnes 2026/27.
   - Nodi'r Adroddiad Perfformiad Mewnol.

Rhestr o atodiadau

Atodiad 1 – Tabl perfformiad a siartiau ar gyfer dangosfwrdd y cynllun busnes
Atodiad 2 – Adroddiad Perfformiad Mewnol

Y broses gymeradwyo / ymgynghori

• **Cyfrifoldeb**	**Sarah Williams (Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni) a Prys Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth)**
• **Yn atebol**	Bwrdd CNC
• **Ymgynghorwyd**	Tîm Arwain (Perchnogion Ymrwymiadau a Pherchnogion Metrigau) / Tîm Gweithredol
• **Hysbyswyd**	Tîm Arwain / Tîm Gweithredol / Bwrdd CNC

Annex 1 - Performance table and charts for Business Plan dashboard

Table 1: Overall dashboard for 2026-27 Business Plan – Actual Reported Position


	2026/27 Business Plan commitment:	2025-26	2026-27			
			Q1	Q2	Q3	Q4
WBO1: Nature	1: **Improve the effectiveness and efficiency of our land use planning role**: consistent with our Planning Strategy by developing and starting to implement a prioritised plan of improvements.	N/A	Green	Green		
	2: **Resilient Ecological Networks (REN)**: Projects are established and underway across Wales.	N/A	Amber	Amber		
	3: **Spatial protection for nature delivery**: programme established and implementation started.	Amber	Green	Amber		
	4: **Glyndŵr National Park Advice**: Provide specialist advice to Welsh Government, participate in a possible local public inquiry and/or support other relevant actions in relation to a Glyndŵr National Park designation order.	Green	Green	Green		
	5: **Sustainable Farming Scheme advice**: Provide specialist advice to Welsh Government for the development of the optional and collaborative actions in the Sustainable Farming Scheme, including refresh of the forest management plan and scoping of a new woodland management scheme verification service.	Amber	Amber	Amber		
	6: **Establish species recovery initiatives**: namely (i) a Species Recovery Framework, (ii) WG/NRW beaver work programme.	N/A	Amber	Green		
	7: **Marine SAC and SPA Condition Assessments**: Progress development of cross border marine SAC and SPA condition assessments and conservation advice packages to inform effective site management.	Green	Green	Green		
WBO2: Climate	8: **Integrated catchment planning and management**: Establish organisational approach and prioritised forward programme for integrated catchment planning and management.	N/A	Green	No milestone		
	9: **Periodic Review of Water Company Prices 2029**: Establish PR29 approach to nature-based-solutions and catchment solutions.	Amber	Green	Amber		
	10: **Improve Flood Risk Assessment Wales**: develop the delivery plan for the next generation of Flood Risk Assessment Wales, to modernise flood data so that it can be used by all stakeholders.	Amber	Green	Amber		
	11: **Taff flood catchment plan**: develop a prioritised pipeline of work, and establish a catchment partnership.	Green	No milestone	No milestone		
	12: **NRW Adaptation Plan**: Development of NRW's Second Climate Adaptation Plan.	Green	No milestone	Green		
	13: **Low-carbon industry guidance**: Develop advice, guidance and tools on low-carbon technologies and infrastructure, including Nuclear, Carbon Capture, Persistent Chemicals (PFAS) and enhanced Environmental Management System (EMS) expectations.	Amber	Green	Amber		

	2026/27 Business Plan commitment:	2025-26	2026-27			
			Q1	Q2	Q3	Q4
	14: **Marine renewables evidence and guidance**: deliver evidence and guidance programmes to support consistent and accessible advice and guidance for sustainable project and programme design.	Green	Green	Green		
	15: **Timber sales**: Support the supply chain for carbon-locking Welsh timber for Welsh Homes through timber sales from the Welsh Government Woodland Estate.	N/A	Green	Green		
	16: **Act as facilitator for the Mid Wales Growth Deal partnership**: to support decarbonisation opportunities for the round timber haulage sector, as a part of NRW's contribution to the Whole System Research for Innovation and Decarbonisation (WSRID) Welsh Government initiative.	N/A	Amber	Green		
	17: **Electric vehicle charging infrastructure**: Increase EVCI capacity by 61 chargers across 16 sites to accelerate fleet decarbonisation in 2027-28.	N/A	Green	Green		
WBO3: Pollution	18: **Develop NRW's Catchment Nutrient Recovery plans**: for priority catchments to support delivery of an integrated approach to development activity.	Green	Green	No milestone		
	19: **Work with water sector**: on statutory water planning frameworks and stakeholders on Water Framework Directive Regulations statutory consultations.	Amber	Green	Green		
	20: **Complete targeted audits of Operator Self Monitoring results**: prioritising water companies and other high-risk sectors to drive better compliance.	Amber	No milestone	No milestone		
	21: **Shape future water legislation, governance and regulation**: by collaborating with Welsh Government, Defra, the Environment Agency, Natural England, Ofwat and the Drinking Water Inspectorate.	N/A	Green	Green		
	22: **Embed changes to incident management approach and ways of working**: to enable a prioritised response to incidents focussing resource to those which cause the most harm.	Amber	Amber	Amber		
	23: **Deliver the Tackling Waste Crime Programme**: disrupting organised waste crime through intelligence led, multi agency intervention.	Amber	Amber	Amber		
	24: **Work with Welsh Government and DEFRA**: to develop digital waste tracking and cross border data sharing, to understand waste flows and help identify illegal activity earlier.	N/A	Amber	Amber		
WBO4: How	25: **Deliver the next Ein Llais staff survey**: to strengthen insight into performance and culture.	N/A	Green	Green		
	26: Embed consistent, high-quality leadership: through Leading Together and improved People Management Induction.	N/A	Green	Green		
	27: **Strengthen People Services** by: - Implementing the Strategic Equality plan and Anti Racism plan. - Completing the Health and Safety training needs analysis.	N/A	Amber	Green		
	28: **Develop our approach to building an agile workforce**: supporting skills development, careers and succession planning.	N/A	No milestone	No milestone		

	2026/27 Business Plan commitment:	2025-26	2026-27			
			Q1	Q2	Q3	Q4
	29: **Enhance the customer platform**: and extend the Marine Licensing approach to other NRW services.	Green	Green	Green		
	30: **Improve species and tree felling licensing processes**: by delivering a customer focused end to end review.	N/A	Green	Green		
	31: **Develop and implement a transparent, prioritised delivery plan for stabilising and transforming the Digital, Data and Technology (DDaT) service**: to drive improvements in the efficiency and effectiveness of our services.	N/A	Green	Amber		
	32: **Embed the outcome-focused Planning and Performance Framework**: integrating business, finance and strategic workforce planning with the multi-year plan and service and place planning.	N/A	Green	Green		
	33: **Establish our approach to Green Finance**: to identify investor-ready financial mechanisms and unlock new funding.	N/A	Amber	No milestone		
	34: **Implement an end-to-end terrestrial monitoring service review**: to provide evidence and insights on condition of protected habitats and species and management effectiveness of protected sites.	N/A	No milestone	No milestone		
	35: **Use SoNaRR 2025 evidence and insights**: to strengthen our advocacy and engagement with partners.	Green	Green	No milestone		

Key: Green = achieved; Amber = partially achieved; Red = missed

Chart 1: Actual reported position for each quarter (along with anticipated year end position from each quarter)



Annex 2 – Internal Performance Report


The following pages provide the performance snapshot at the end of quarter one in relation to key measures relating to the 'health' of our organisation.

Summary

The performance position* (at the end of quarter two, September 2026) for the measures covered by this report is:

- Four green
- Two amber
- One red

(see next page for detail)



* *Key*: Green - achieved; Amber – partially achieved; Red – missed; Grey – N/A (Not applicable)

Amber or Red

ICT:

- **Information Commissioner's Office (ICO) reported incidents** is Amber at the end of the quarter. One incident required ICO reporting during August. The ICO decided to provide advice to us around this. There is an ongoing internal investigation into the incident. Green is still anticipated for this item by the end of the financial year.

Governance:

- **Declarations of Interest** (where people working for us declare when their official and/or private interests may be perceived to conflict with NRW's work) has now moved to Amber at 86% at the end of the quarter (Red in Q1). Staff still needing to complete their declaration have been prompted to do this. Green is still anticipated for this item by the end of the financial year.

Health and Safety:

- **Health & Safety Near Miss reporting** is now Red with 42 near miss reports for September, which is a decrease from September last year. Team Leaders and Managers continue to be reminded of the importance of reporting near misses, and drop-in sessions will be arranged around the reporting of these. Green is still anticipated for this item by the end of the financial year.

Green

Customer and Communications:

- **Access to Information requests** responded to within 20 days is Green at the end of the quarter at 90.3% (up from Amber, at 89.8% for Q1). Green is still anticipated for this item by the end of the financial year.
- **Complaints** responded to within service level is Green at the end of the quarter at 97%. Green is still anticipated for this item by the end of the financial year.

Finance:

- **Payments performance** to our suppliers remains Green at the end of the quarter at 98%. Green is still anticipated for this item by the end of the financial year.

Procurement and Contracts:

- **Retrospective orders** is Green at the end of September with 4% of purchase orders being retrospective. Green is still anticipated for this item by the end of the financial year.